



Swydd: GORUCHWYLIWR CAFFI/ BAR GALERI
Adran: ARLWYO/GOFAL CWSMER
Yn atebol i: Rheolwr Arlwyo a Gofal Cwsmer

Ceisiadau ar Ffurflen Gais gan cynnwys CV ar frys

Cyfweliadau: Dyddiad i'w gadarnhau
Cyflog: I'w drafod
Oriau: Isafswm 30 awr yr wythnos
[ROTA Llun – Sul fydd yn cynnwys oriau anghymdeithasol,
penwythnosau a Gwyliau Banc]

Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:
Rhian Evans **Iona Davies**
01286 685 250 **01286 685 218**
rhian.evans@galericaernarfon.com **iona.davies@galericaernarfon.com**

Ydy'r diddordeb, yr egni a'r agwedd iawn gennych i fod yn ran allweddol o'n Tîm Gofal Cwsmer?

Yn wyneb cyhoeddus i Galeri, mae'r Tîm yn gyfrifol am roi gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid mewn lleoliad arbennig ac awyrgylch diddorol, amrywiol a phrysur.

Prif bwrpas y Swydd:

I weithio llaw yn llaw hefo rheolwyr a staff presennol Galeri i sicrhau profiad eithriadol a chofiadwy i'n ymwelwyr.

Goruchwylio a hyfforddi staff achlysurol ym mhob agwedd o gwaith yr adran.

Fe fyddwch yn weithiwr positif, hyblyg, amlorchwyl a blaenweithgar fydd yn:

- Rhoi gwybodaeth perthnasol a thrylwyr am y Ganolfan a'i gweithrediadau/digwyddiadau
- Uchafu gwerthiant a chynhyrchu elw
- Delio yn effeithiol hefo unrhyw gwynion neu gamgymeriadau a'u perchnogi
- Gweini bwyd a diod yn unol âg archebion ac anghenion dietegol y Cwsmer
- Cyd-weithio hefo'r Tim Arlwyo i hybu'r Ganolfan fel bwyty safonol

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Rhoi gwasanaeth rhagorol a chyson i holl gwsmeriaid Galeri

Ymateb yn effeithiol i ymholiadau staff, tenantiaid a chwsmeriaid, delio hefo unrhyw gwynion a blaenyrru beth sy'n berthnasol i adrannau eraill y Cwmni

Agor/Cau'r adran a bod yn gyfrifol am ddiogelwch cyffredinol pob amser

Sicrhau bod yr adran yn barod am fusnes pob amser drwy fod yn weladwy, goruchwyllo a glanhau/clirio byrddau / monitro lefelau stoc yn gyson

Cynorthwyo efo darparu 'Rotas' gwaith pan fo'r angen

Darparu, gosod a gweini paratodau arlwy a lluniaeth i'r ystafelloedd Cyfarfod/ Priodasau ac Achlysuron

Adrodd unrhyw ddiffygion offer neu arall at y Rheolwr

Bod yn ymwybodol o gynnwys y fwydlen/ cynnigion arbennig y dydd ac anghenion dietegol y cwsmer- briffio hyn i weddill y staff

Cyfri tiliau a fflot arian, balansio sesiynnau gwerthu a datrys unrhyw wahaniaethau gyda'r lleiafswm o gyfeiriadau at y Rheolwyr
Darparu arian yn barod i'w falansio a'i fancio a chadw llygiad ar anghenion newid mân yr adran

Sicrhau bod glendid a safon y caffi, bar ac ardal y byrddau tu allan yn cael ei gynnal pob amser- cydymffurfio hefo gofynnion statudol a deddfwriaeth i gynnwys Iechyd a Diogelwch a Trwyddedu

Monitro gwastraff- h.y. dim gwastraff ynni/ stoc di angen

Yn Gyffredinol:

Ymgymrud â unrhyw ddyletswyddau arall sy'n gymesurol â lefel cyfrifoldeb y swydd

Cydymffurfio efo Polisiau Cyflogaeth a Iechyd a Diogelwch y Cwmni

Dilyn a bod yn ymwybodol o dull gweithredu Hylendid Bwyd

Cymhwyseddau Ymddygiad / Sgiliau

Y gallu i wneud gwahaniaeth positif a chofiadwy i'r cwsmer, trosgludo lefel uchel o wasanaeth, datrys problemau heb oruchwyliaeth barhaol

Y gallu i weithio yn rhan o dim, gweithio dan bwysau, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da

Sgiliau rhifiadol i allu cyfri yn sydyn a sicrhau cywirdeb cyson o'r fflôt, til a newid mân, sgiliau cyfrifiadurol

Sgiliau cyfathrebu effeithiol ar lafar neu'n ysgrifenedig

Dangos sylw manwl at fanylion ac arddangos safon uchel o waith, rheoli amser a hyblygrwydd

Unigolyn sy'n gwerthfawrogi ac sy'n ymrwymedig i ddiwylliant gwahanredol y Cwmni

Arall:

Gallu gweithio oriau anghymdeithasol

Gallu gweithio patrwm rota hyblyg e.e gyda'r nosau, penwythnosau /Gwyliau Banc

Deiliad cymhwyster Glendid Bwyd

Manyldeb Person:

Egniol, cyfrifol, brwdfrydig, cwrtais, angerddol

Arddangos hunan gred a gonestrwydd

Hyderus i gyfrannu syniadau er mwyn gwella gwasanaeth cwsmer

Angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri

Mae'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

This is an advertisement for a Café-Bar Supervisor where the ability to communicate effectively through the medium of Welsh is essential.



galericaernarfon.com

Twitter: @ _Galeri_

Facebook: GaleriCaernarfon

Instagram: GaleriCaernarfon